**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Julie James AC
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

5 Rhagfyr 2019

**Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2019**

Annwyl Julie,

Diolch am ymddangos gerbron y Pwyllgor ar 27 Tachwedd ar gyfer y sesiwn graffu ar y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru). Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch gytuno i ysgrifennu at y Pwyllgor gyda'r wybodaeth a ganlyn:

- manylion unrhyw ddadansoddiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru neu gan unrhyw un arall mewn perthynas â chynlluniau deisebau, y cynnydd posibl yn eu defnydd gan y cyhoedd, a goblygiadau tymor hir i brif gynghorau o ran costau rhedeg cynllun.
- yr amserlen ar gyfer 'cyd-gynhyrchu' canllawiau a threfniadau rheoleiddio a grëir gan y Bil.
- enghreifftiau neu dystiolaeth o drefniadau hunanasesu effeithiol sydd ar waith ar draws y byd ar hyn o bryd.

Yn ystod y cyfarfod, nid oeddech yn gallu darparu ymatebion manwl i'n cwestiynau ar oblygiadau ariannol y Bil oherwydd cyfyngiadau ar amseriad cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru a setliad llywodraeth leol. Yn dilyn y sesiwn, cytunwyd i ofyn am ymatebion ysgrifenedig i'r cwestiynau hyn ac am ychydig o wybodaeth ychwanegol am rai meysydd eraill a drafodwyd yn ystod y cyfarfod.

Yn gyntaf, a allwch amlinellu’r cymorth ariannol y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i lywodraeth leol i dalu'r costau ychwanegol y bydd awdurdodau yn eu hwynebu o ganlyniad i’r darpariaethau yn y Bil hwn i ehangu’r etholfraint? A allwch hefyd amlinellu sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi awdurdodau lleol, gan gynnwys unrhyw gymorth ariannol, i sicrhau bod y systemau

angenrheidiol ar waith i alluogi presenoldeb o bell yng nghyfarfodydd cynghorau?

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch gadarnhau y byddai canllawiau ar weithredu darpariaethau'r Bil yn cael eu cynhyrchu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru: a allwch hefyd ddarparu manylion am sut y bydd defnyddwyr gwasanaethau eraill, gan gynnwys dinasyddion, yn gallu dylanwadu ar y canllawiau o ran eu dylunio a'u darparu. Byddai'n ddefnyddiol inni gael copi o'r amserlen ar gyfer cynhyrchu'r canllawiau cyn ein dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Fe gofiwch inni hefyd drafod cymelliadau ariannol posibl i awdurdodau lleol sydd am newid i system y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy. A wnewch egluro a fyddai Llywodraeth Cymru yn ystyried darparu cymorth ariannol i brif gynghorau sydd am newid i system y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy?

Rydym yn gwerthfawrogi nad yw'n bosibl ichi ymateb i bob un o'r pwyntiau hyn cyn i'r gyllideb ddrafft a setliadau llywodraeth leol gael eu cyhoeddi, ond byddem yn ddiolchgar am gael ymateb cyn gynted â phosibl ar ôl 16 Rhagfyr.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

John

John Griffiths AC

Y Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.